O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 32

Rheoliadau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2026

Gwnaed	*5 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 32

The Senedd and Elections (Wales) Act 2020 and the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2026

Made	*5 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 32

SENEDD CYMRU

Rheoliadau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n ganlyniadol ar ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru gan adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ("Deddf 2020"). Mae adran 39 o Ddeddf 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth arbed neu ddarpariaeth ganlyniadol os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2020, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu er mwyn rhoi effaith i unrhyw ddarpariaeth ynddi. Mae adran 150A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gweithredu yn y fath fodd fel ei bod yn newid yn gyfreithiol gyfeiriadau at enw newydd y sefydliad. Fodd bynnag, gall gadael cyfeiriadau at "y Cynulliad" neu "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yn y darpariaethau sy'n cael eu diwygio yn y Rheoliadau hyn greu dryswch i'r darllenydd. Ystyrir, felly, fod y diwygiadau hyn yn briodol at ddibenion eglurder a hygyrchedd y ddeddfwriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n ganlyniadol ar newidiadau a wnaed i system etholiadol y Senedd gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024"), yn benodol adran 2, a ddiddymodd ranbarthau etholiadol y Senedd. Mae adran 20 o Ddeddf 2024 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth arbed neu ddarpariaeth ganlyniadol os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2024, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi. Ystyrir bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn briodol at ddibenion eglurder a hygyrchedd y ddeddfwriaeth.

Mae rheoliad 1 yn nodi enw a darpariaethau dod i rym y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, gan ddileu cyfeiriadau at ranbarthau etholiadol a diwygio cyfeiriadau o “the National Assembly for Wales” i “Senedd Cymru”.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012, gan ddileu cyfeiriadau at “electoral regions”.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012, gan ddileu cyfeiriadau at “electoral regions” a diwygio cyfeiriadau o “the National Assembly for Wales” i “Senedd Cymru”.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

2026 Rhif 32

SENEDD CYMRU

Rheoliadau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2026

Gwnaed	*5 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 39 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020(**1**) ac adran 20 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024(**2**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

(3) Er bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym o dan reoliad 1(2), nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad cyffredinol cyffredin, neu etholiad cyffredinol eithriadol, a gynhelir o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**), y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny.

Diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 98(8) (cyflenwi copi am ddim o'r gofrestr lawn at ddibenion etholiadol a chyfyngiadau ar ei defnydd)—

(a) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "Senedd Cymru";

(b) hepgorer "or region".

(**1**) 2020 dccc 1.
(**2**) 2024 dsc 4.
(**3**) 2006 p. 32. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol wedi eu diwygio gan Ran 2 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 i ddisodli'r system o bleidleisio ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd.
(**4**) O.S. 2001/341. Mewnosodwyd rheoliadau 98, 103 a 108 gan reoliad 15 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2002 (O.S. 2002/1871).

(3) Yn rheoliad 103 (cyflenwi'r gofrestr lawn etc i gynrychiolwyr etholedig at ddibenion etholiadol a chyfyngiadau ar ei defnydd)—

(a) ym mharagraff (1)(c)—

(i) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "Senedd Cymru";

(ii) hepgorer "or region";

(b) ym mharagraff (2)(a)—

(i) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "Senedd Cymru";

(ii) hepgorer "or region".

(4) Yn rheoliad 108 (cyflenwi'r gofrestr lawn i ymgeiswyr penodol a chyfyngiadau ar ei defnydd)—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "Senedd Cymru";

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) In this regulation "candidate" includes a candidate at an election of a mayor under Part II of the Local Government Act 2000.";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "in an electoral region for the National Assembly for Wales" rhodder "of Members of the Senedd".

Diwygio Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012

3.—(1) Mae Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012(**5**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "Senedd election" rhodder—

""Senedd election" means an election to return a member of Senedd Cymru;";

(b) ym mharagraff (2C), hepgorer "and electoral regions".

(3) Yn Atodlen 4 (cyfuno polau)—

(a) ym mharagraff 47(1)(a), yn yr is-baragraff (2) sydd wedi ei amnewid o baragraff 13 o'r Atodlen honno, ym mharagraff (a), yn lle "and "Senedd electoral region" mean a Senedd constituency or (as the case may be) electoral region" rhodder "means a Senedd constituency";

(b) ym mharagraff 49, yn y paragraff (3A)(b) sydd wedi ei amnewid o baragraff 19 o'r Atodlen honno, hepgorer "or electoral region".

Diwygio Rheoliadau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012

4.—(1) Mae Rheoliadau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(**5**) O.S. 2012/1917. Mewnosodwyd y darpariaethau perthnasol yn erthygl 2 ac Atodlen 4 i'r Gorchymyn gan erthyglau 2, 3 a 6 o Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/300). Diwygiodd rheoliad 56 o'r Rheoliadau Adnabod Pleidleiswyr 2022 (O.S. 2022/1382) y darpariaethau perthnasol ac yn lle "Assembly" rhoddwyd "Senedd".

(**6**) O.S. 2012/1918. Diwygiwyd paragraffau perthnasol rheoliad 2 gan erthyglau 7 ac 8 o Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/300).

(a) ym mharagraff (4), yn lle “an Assembly” rhodder “a Senedd”;

(b) yn lle paragraff (5) rhodder—

“(5) In this regulation—

“the Senedd” means Senedd Cymru, as provided by section 1 of the Government of Wales Act 2006;

“Senedd constituency” means a Senedd constituency, as provided by section 2 of the Government of Wales Act 2006;

“Senedd election” means an election to return a member of the Senedd.”

Jayne Bryant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
5 Chwefror 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 32

SENEDD CYMRU

The Senedd and Elections (Wales) Act 2020 and the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make minor amendments to secondary legislation, consequential on the renaming of the National Assembly for Wales to Senedd Cymru by section 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 ("the 2020 Act"). Section 39 of the 2020 Act gives the Welsh Ministers power to make supplemental, incidental, saving or consequential provision if they consider it appropriate for the purposes of, in consequence of, or for giving effect to any provision of the 2020 Act. Section 150A of the Government of Wales Act 2006 operates in such a way as to change legally references to the new name of the institution. Leaving references to "the Assembly" or "the National Assembly for Wales" in the provisions being amended in these Regulations may however create confusion for the reader. These amendments are therefore considered appropriate for the purposes of clarity and accessibility of the legislation.

These Regulations make minor amendments to secondary legislation, consequential on changes made to the Senedd electoral system by the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 ("the 2024 Act"), in particular section 2, which abolished Senedd electoral regions. Section 20 of the 2024 Act gives the Welsh Ministers power to make supplemental, incidental, saving or consequential provision if they consider it appropriate for the purposes of, in consequence of, or for giving full effect to any provision of the 2024 Act. The amendments made by these Regulations are considered appropriate for the purposes of clarity and accessibility of the legislation.

Regulation 1 sets out the title and coming into force provisions of these Regulations.

Regulation 2 makes consequential amendments to the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001, removing references to electoral regions and amending references from "the National Assembly for Wales" to "Senedd Cymru".

Regulation 3 makes consequential amendments to the Police and Crime Commissioner Elections Order 2012, removing references to “electoral regions”.

Regulation 4 makes consequential amendments to the Police and Crime Commissioner Elections (Functions of Returning Officers) Regulations 2012, removing references to “electoral regions” and amending references from “the National Assembly for Wales” to “Senedd Cymru”.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2026 No. 32

SENEDD CYMRU

The Senedd and Elections (Wales) Act 2020 and the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2026

Made	*5 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 39 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020(**1**) and section 20 of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024(**2**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 and the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

(3) Despite the coming into force of these Regulations under regulation 1(2), these Regulations do not have effect in relation to an ordinary general election, or an extraordinary general election, held under Part 1 of the Government of Wales Act 2006(**3**), the poll for which is held on or before 6 April 2026.

Amendment of the Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001

2.—(1) The Representation of the People (England and Wales) Regulations 2001(**4**) are amended as follows.

(2) In regulation 98(8) (supply of free copy of full register for electoral purposes and restrictions on use)—

(a) for "the National Assembly for Wales" substitute "Senedd Cymru";

(b) omit "or region".

(**1**) 2020 anaw 1.
(**2**) 2024 asc 4.
(**3**) 2006 c. 32. The provisions surrounding general elections have been amended by Part 2 of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 to replace the system of voting for Senedd general elections.
(**4**) S.I. 2001/341. Regulations 98, 103 and 108 were inserted by regulation 15 of the Representation of the People (England and Wales) (Amendment) Regulations 2002 (S.I. 2002/1871).

(3) In regulation 103 (supply of full register etc to elected representatives for electoral purposes and restrictions on use)—

(a) in paragraph (1)(c)—

(i) for "the National Assembly for Wales" substitute "Senedd Cymru";

(ii) omit "or region";

(b) in paragraph (2)(a)—

(i) for "the National Assembly for Wales" substitute "Senedd Cymru";

(ii) omit "or region".

(4) In regulation 108 (supply of full register etc to certain candidates and restrictions on use)—

(a) in paragraph (1)(b), for "the National Assembly of Wales" substitute "Senedd Cymru";

(b) for paragraph (2) substitute—

"(2) In this regulation "candidate" includes a candidate at an election of a mayor under Part II of the Local Government Act 2000.";

(c) in paragraph (3), for "in an electoral region for the National Assembly for Wales" substitute "of Members of the Senedd".

Amendment of the Police and Crime Commissioner Elections Order 2012

3.—(1) The Police and Crime Commissioner Elections Order 2012(**5**) is amended as follows.

(2) In article 2 (interpretation)—

(a) in paragraph (1), for the definition of "Senedd election" substitute—

""Senedd election" means an election to return a member of Senedd Cymru;";

(b) in paragraph (2C), omit "and electoral regions".

(3) In Schedule 4 (combination of polls)—

(a) in paragraph 47(1)(a), in the substituted sub-paragraph (2) of paragraph 13 of that Schedule, in paragraph (a), for "and "Senedd electoral region" mean a Senedd constituency or (as the case may be) electoral region" substitute "means a Senedd constituency";

(b) in paragraph 49, in the substituted paragraph (3A)(b) of paragraph 19 of that Schedule, omit "or electoral region".

Amendment of the Police and Crime Commissioner Elections (Functions of Returning Officers) Regulations 2012

4.—(1) The Police and Crime Commissioner Elections (Functions of Returning Officers) Regulations 2012(**6**) is amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

(**5**) S.I. 2012/1917. The relevant provisions in article 2 and Schedule 4 to the Order were inserted by articles 2, 3 and 6 of the Police and Crime Commissioner Elections (Amendment) Order 2016 (S.I. 2016/300). Regulation 56 of the Voter Identification Regulations 2022 (S.I. 2022/1382) amended the relevant provisions and substituted "Senedd" for "Assembly".

(**6**) S.I. 2012/1918. The relevant paragraphs of regulation 2 were amended by articles 7 and 8 of the Police and Crime Commissioner Elections (Amendment) Order 2016 (S.I. 2016/300).

(a) in paragraph (4), for “an Assembly” substitute “a Senedd”;

(b) for paragraph (5) substitute—

“(5) In this regulation—

“the Senedd” means Senedd Cymru, as provided by section 1 of the Government of Wales Act 2006;

“Senedd constituency” means a Senedd constituency, as provided by section 2 of the Government of Wales Act 2006;

“Senedd election” means an election to return a member of the Senedd.”

Jayne Bryant
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
5 February 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839802-1

9 780348 398021